# Y DINESYDD

PAPUR CYMRAEG CAERDYDD — RHAGFYR 1974 — RHIF 16



# CRONFA MIL O FILOEDD

Mewn cyfarfod o'r Cylch Cinio yn mis Hydref, prif westai'r noson oedd Mr T.W. Thomas, Pentyrch, sydd yn adnabyddus i Gymry Caerdydd am ei fynych wasanaethau i achosion Cymreig. Ef oedd Cadeirydd Pwyllgor Gwaith Eisteddfod Genedlaethol Caerffili yn 1950 ac yng Nghaerdydd yn 1960, ac ef yw Trysorydd yr Eisteddfod Genedlaethol ers dros 25 mlynedd. Fel cymaint o achosion Cymreig yn y dyddiau garw economaidd hyn mae'r angen am arian i'w chynnal a'i hybu yn fawr. Ac i'r diben hwn y sefydlwyd y gronfa Mil o Filoedd dan nawdd Gorsedd y Beirdd beth amser yn ôl. Ei phrif bwrpas yw rhoi cymorth yn bennaf i'r pwyllgorau lleol pan gynhelir yr Eisteddfod yn yr ardaloedd gwledig ac mewn ardaloedd bychain eu poblogaeth.

Mae'r chwyddiant yng nghostau popeth yn sicr o effeithio ar Eisteddfodau'r dyfodol ac os ydym am ddymuno sicrhau dyfodol yr Eisteddfod Genedlaethol rhaid cynllunio heddiw i sicrhau'r sylfeini a osodwyd eisoes. Dyna'r angen am y gronfa. Eisoes bu ymateb ardderchog oddi wrth nifer o ardaloedd, ond hyd yn hyn bychan fu'r ymateb o Gaerdydd - Prifddinas Cymru.


Gan sylweddoli hyn rhoddodd Pwyllgor y Cylch Cinio y gwahoddiad i Mr Thomas i esbonio tipyn o gefndir sefyllfa ariannol yr Eisteddfod gan sylweddoli hefyd y dylai Caerdydd fel Prifddinas wynebu ei chyfrifoldeb a rhoi arweiniad wrth ymgyrch arbennig yn ystod y flwyddyn nesa'. Yn y drafodaeth a ddilynodd araith Mr Thomas teimlodd yr aelodau y dylai Cymry Caerdydd weithredu'n fuan a phenderfynwyd sefydlu pwyllgor dros dro o 5 o aelodau'r cylch at y pwrpas o gychwyn yr ymgyrch. Erbyn i'r rhifyn hwn o'r Dinesydd ymddangos bydd y Pwyllgor Cychwyn wedi cyfarfod o dan lywyddiaeth Mr Thomas a gyda Mr Geraint Walters fel Ysgrifennydd i ystyried cynlluniau. Dywedodd rhywun fod rhaid i'r Cymro Cymraeg roi ei law yn ei boced yn amlach nac unrhyw frodor arall o Brydain a diau fod hyn yn wir os yw am i'w iaith a'i ddiwylliant barhau.

Un o weithrediadau cyntaf y Pwyllgor Cychwyn fydd galw cyfarfod cyhoeddus yn fuan yn y flwyddyn newydd gan wahodd cynrychiolwyr oddi wrth yr holl gymdeithasau a sefydliadau Cymreig yn y Brifddinas a'r cylch, ac y mae llu ohonynt, i roi awgrymiadau ac i weld beth a ellir ei wneud yn ymarferol. Cyhoeddir yr holl ddatblygiadau yn Y Dinesydd.




## PRIODAS AUR

Llongyfarchiadau i Mr a Mrs J. Davies, Fidlas Avenue. Byddant yn dathlu priodas aur y dydd Gwener cyn y Nadolig. Aelod yn Ebeneser yw Mr Davies a Mrs Davies yn y Tabernacl.






*Heather Jones*

## Y Fari Lwyd

Dim ond hysbyseb ydy hwn i ddweud fod y Fari Lwyd am adael y stabal eleni eto. Mi fydd yn dechrau ar ei thaith flynyddol ar y 27ain o Ragfyr ac yn gorffen ei chrwydro ar Ionawr 1af.

A gaf i fel ysgrifennydd y Cwmni Dawns eich annog eleni, os ydych am gwrdd a'r hen ladi, i ddilyn yr hen ddefod go iawn. Fe rown ni her farddonol i chi. Cofiwch bu'r chwe phennill gyntaf o gasgliad William Roberts 'Nefydd' yn rhan o'r ddefod, nid yn rhan o'r ymrafael. Cewch hyd iddyn nhw yn llyfr Trefor Owen ar draddodiadau Cymru.

Os oes rhywun am i ni alw'n arbennig gadewch i mi wybod, dyma'r cyfeiriad:

Rhodri Jones,
'Dyfodwg'
29 Heathwood Grove,
CAERDYDD CF4 3RD.

## *CODI'R TO*

Cafwyd noson hwyliog iawn yn Neuadd Coleg Cyncoed nos Sadwrn Rhagfyr 7fed er na lwyddwyd i beri llawer o ddifrod i'r to. Er nad oedd y neuadd yn llawn roedd ansawdd y canu'n arbennig o uchel a Meredydd Evans yr arweinydd yn cael y lleisiau mwyaf melodaidd allan o'r gyddfau mwyaf amhersain.

Mae dyled Y Dinesydd yn fawr i Heather Jones am ganu mor broffesiynol ac arfer 'yn rhad ac am ddim', a hefyd i Gor Godre'r Garth yr un mor rhad ac am ddim, am berfformiad i fyny i safon eu buddugoliaeth ysgubol yn y Genedlaethol. Rydym yn wirioneddol lwcus o gael criw mor weithgar yn y cyffiniau. Diolch hefyd i Phyllis Kinney ac A.D. Thomas am gyfeilio mor gelfydd. Noson dda, er na wnaethpwyd llawer o elw.

Gyda llaw mae rhagor o gopiau o'r casgliad o ganeuon ar gael oddi wrth y Golygydd am 20c yr un.

# Llythrau Cas at y Golygydd

*4 Y Parade,*
*Yr Eglwys Newydd*

*Annwyl Olygydd,*

*Wedi darllen CYM ANFADDEUOL Spectol Sian yn y rhifyn diwethaf o'r Dinesydd, ni allwn lai na dod i'r casgliad bod Sian yn graddio'n gyson yn y grefft o grafu, a chyn fawr amser fe ddaw yn eitha hen scram. Mae'n ddiddorol ei bod wedi rhoi'r pennawd hwn i'w sylwadaeth oblegid, pan ddwedodd yr un Sian rhai misoedd yn ôl fod cyntedd y Tabernacl yn lle da i barcio am ddim, anfonais lythyr i'r Dinesydd, dan y teitl Car-arweiniad, yn egluro bod yr aelodau'n talu'n anrhydeddus Teg egluro mai ar fy nghais i y cadwodd y golygydd y llythyr yn ol.*

*Ni wadwn o gwbl fod yna le a gwerth i gerydd ambell waith, ond mae'n drueni mawr bod Sian Spectol yn mabwysiadu dull mor haerllug. Efallai ei bod yn angyles fach, ond gall roi heibio'r syniad ei bod yn angyles warcheidiol yr iaith. Gresyn na fyddai ganddi air da i'w ddweud am y gwaith a wnaed (cyn ei hymddangosiad yn ffurfafen y Dinesydd) ac a wneir yn gyson gan yr eglwys y cyfeiria ati fel 'cymdeithas sy'n honni Cymreictod'.*

*Mae hi naill ai'n anwybodus o ffeithiau neu yn anwybyddu ffeithiau. Mae'r gymdeithas hon sydd yn 'honni Cymreictod' ym mysg pethau eraill, wedi cefnogi'r cyfrwng hwn sydd yn rhoi cyfle iddi hithau i 'marfer ei dawn! Awgrymwn yn garedig mai buddiol i Sian ac i achos da yr iaith Gymraeg fyddai iddi newid ei spectol.*

*Yn GAM FADDEUOL,*

**Raymond Williams.**

## CWMNI DAWNS

*Annwyl Syr,*

*Darllenais gyda syndod gyhuddiad 'Sian-' o ddwyieithrwydd Cwmni Dawns yr Aelwyd yng Nghaerdydd. Dywedaf syndod gan mai cynnig cyfarfod blynyddol 1973 sy'n cael ei grybwyll yn ei llythyr. Trueni na fo'r sawl sy'n creu diflastod ddim yn gwneud yn siwr o'i ffeithiau cyn eu rhoi ar bapur. A bod yn onest, yn ôl ein cyfansoddiad mae'n rhaid i ni fel Cwmni fod yn barod i gyfieithu i'r iaith fain ar gais un o'n haelodau, a dyna â ddigwyddodd eleni.*

*Derbynwyd y cynnig fod cyfieithiad o'r sylwadau priodol yn cael eu rhoi i aelodau'r Cwmni, cywirwch fi os rwyf yn anghywir, ond mi gredaf fod cryn dipyn o wahaniaeth rhwng dwyieithrwydd a chyfieithiad.*

*Fel ateb i Sian dyma rai o'r ffeithiau y mae hi wedi anghofio amdanynt.*

*a) Mae cyfansoddiad y Cwmni yn uniaith Gymraeg.*

*b) Mae cofnodion holl gyfarfodydd y Cwmni Dawns yn Gymraeg ers Mis Medi 1970, y tro cyntaf i ni gael cyfarfod ffurfiol.*

*c) Cynhelir ein hymarferiadau yn Gymraeg ar gais y Saeson yn ein plith.*

*ch) Mae Pump o'n haelodau wedi dod i siarad Cymraeg yn rhugl ar ôl ymuno â ni, er gwaethaf ein dwyieithrwydd ac ar hyn o bryd mae tri wrthi'n ddyfal yn ceisio dal i fyny.*

*d) Heb yr aelodau Saesneg ni fyddai Cwmni Dawns yr Aelwyd yn bod ar hyn o bryd. Ble roedd y Cymry bochgoch iach, yn bur eu calonnau a'u hiaith, pan oeddem ni yn ymladd i gadw ein traddodiadau'n fyw? Heb fawr ddiddordeb ar y pryd mae'n siwr, yn fwy prysur yn dilorni ymgais rhywun arall i gadw'r 'pethe' i fynd.*

*I orffen, mae lle i Sian, boed grwt neu groten i ddod allan gyda ni ar daith y Fari Lwyd eleni ac efallai y byddai'n barod hefyd i weithio, ar achlysur wrth gwrs, tuag at Gymreictod y ddinas, yn yr Aelwyd ag ati.*

*Gyda llaw bach, mae'r Fari, er heb fawr synnwyr yn ei phen, yn baldorddi'n hollol yn Gymraeg.*

*Yr eiddoch yn gywir,*

**Rhodri Jones**

## IAITH WAEL

*115 Westville Road*
*Pen-y-lan*
*Caerdydd*

*Mr Golygydd,*

*A gaf i, drwy gyfrwng eich papur, awgrymu'n garedig i Sian, (Colofn Sbectol Sian) ei bod hi'n gloywi tipyn ar ei Chymraeg ei hun cyn ymosod ar ddifaterwch pobol eraill. Cwmni Dawns Werin Aelwyd Caerdydd, y Tabernacl ac eraill oedd yn ei dal hi yn rhifyn diwethaf 'Y Dinesydd'.*

*Yn ei cholofn yn y rhifyn hwnnw gwelsom bethau fel 'honi', 'ddau enghraifft'. ac 'os mai dyma'ch math chi o adloniant....' A beth am yr erthyl hwn, 'Diddorol fuasai clywed beth am eich clwb, cymdeithas neu gapel chi'.*

*Os dyna safon iaith y Cymro goleuedig heddiw, efallai mai gwell fyddai i'r Gymraeg gael ei 'stwffio i gornel dywyll i gadw cwmni i'r Fari Lwyd gan ddod allan yn achlysurol' chwedl Sian.*

*Ond mae yna un llygedyn o obaith i Sian. Clywais yn ddiweddar fod angen 'Welsh Translator' yn y 'Welsh Office' Beth amdani Sian? Falle y dysgech chi rywbeth yno.*

*Yn gywir,*

**M. Jones (Mrs)**




**RHYDDIAITH R. WILLIAMS PARRY**
Y detholiad cyntaf o ryddiaith R. Williams Parry a gyhoeddwyd erioed. Golygwyd gan Bedwyr Lewis Jones. Clawr caled. £1.50.

**YSGRIFAU BEIRNIADOL VIII**
Y gyfrol ddiweddaraf yn y gyfres nodedig hon. Golygwyd gan J.E. Caerwyn Williams. Clawr caled. £2.

**LLEIDR PEN-FFORDD**
Nofel newydd gan Ivor Owen. Stori â digon o symud ynddi. Bwriedir y llyfr yn bennaf i ddysgwyr â chryn grap ar y Gymraeg. Clawr papur. £1.25.

**TWM O'R NANT (50c)**
**GUTO NYTH BRAN (50c)**
**CYBI A SEIRIOL (65c)**
Tri theitl gan Gwyneth William i blant sy'n dysgu Cymraeg. Cynhwysant storïau ar y rhai sy'n dwyn y teitlau, ynghyd ag ymarferiadau diddorol i'r plant. Cloriau llipa.

*Llyfrau eraill ar fin ymddangos:*

**Y PETHAU DIWETHAF.** Cyfrol o farddoniaeth ddiweddaraf Gwyn Thomas (Bangor). £1.00.
**EWYTHR RHYS A STORÏAU ERAILL.** Storïau i blant gan Janet Jones. £1.00.
**GWANWYN YN Y DDINAS.** Darn o hunangofiant Alun Llywelyn-Williams. £2.00.

GWASG GEE,
DINBYCH

MWYNHAD AC ADDYSG I'R PLANT

MIRI MAWR

LLYFR
2

i'r plant, i ffrindiau, i'r wyrion

YR ANRHEG NADOLIG

ar gael gan
siopau llyfrau led-led Cymru

PRIS £1.25

HTV CYMRU WALES

Llyfr arall i blant Cymru o'r Ganolfan
Deledu yng Nghaerdydd

# TEYRNGED PENTREF I JOHN THOMAS

**Pe baech wedi picio i Neuadd y Pentre, Gwaelod y Garth, ddydd Sadwrn, Tachwedd 16, unrhyw amser rhwng 12.30 a 6.30 fe fyddech wedi cael cryn syndod. Yno fe gasglwyd ynghyd enghreifftiau o waith pob crefftwr sy'n byw yn y pentref, fel teyrnged ffarwel i John Thomas.**

Roedd yno baentiadau dyfrlliw gan Arthur Miles; portreadau a siacedi llyfrau gan ei wraig, Valerie Sweet, gwaith gwehydd gan Mrs Hill, cadeiriau o waith David Lewis, gwaith arian gan Mr Adam a chrochenwaith gan ei wraig; lluniau dyfrlliw gan Mr Hill, darluniau wedi'i gwneud o getynnau clai gan Mr Meeck; ac ysgathriadau tlws ar lechi o fyd natur gan fachgen 16 oed.

Ac i feddwl bod un pentref bach wedi medru llwyfannu'r holl waith gwreiddiol hwn.

Ac yn goron ar y cyfan wrth gwrs, oedd gwaith John Thomas ei hun. Hir y pery'r cof am ei set o offer pitw bach offer saer, plymer, mashwn ac ati, a phob darn yn gweithio'n berffaith.

A oes 'na bentref arall yn lletya meistri fel hyn ac a hoffai lwyfannu arddangosfa debyg tybed?

## FFARWELIO A CHYMERIAD

Roedd Rhagfyr 2 yn ddiwrnod trist ym mhentref Gwaelod y Garth - gwelwyd lori ddodrefn yn tynnu o flaen cartref John Thomas, y gwneuthurwr telynau, a Joan ei wraig, yn barod i'w symud o'u cartref i fywyd newydd yng Nghasblaidd, Dyfed (Sir Benfro). Mae dymuniadau gorau'r plwy yn mynd gydag e, gan obeithio y caiff lonydd i ddyfeisio mwy o lwyau caru cywrain a thelynau, a hamdden i adeiladu'r cwch y bu'n dyheu amdano - a'r hin i dyfu tybaco!


O, 'RWY'N GYMRO GOL-EU-EDIG!




**Sythwch y sefyllfa. Anfonwch £1.00 i ymaelodi am weddill 1974, ar unwaith:**

**UCAC**

**UNDEB CENEDLAETHOL ATHRAWON CYMRU**

**11, Gordon Road, Caerdydd, CF2 3AJ. Tel. 24692**


# DEREK BOOTE

Y tro cyntaf imi i gyfarfod â Derek oedd ar lwyfan Neuadd Ysgol Gyfun Llangefni ym 1960. Yr oedd o a'i gyfaill, Hywel Gwynfryn, yn ddisgyblion yno ar y pryd ac yn arweinwyr amlwg ym myd adloniant yr ysgol. Ymhen blwyddyn neu ddwy cydymddangosem mewn ambell raglen hefo cwmni TWW a deuthum felly yn gyfarwydd iawn â llais cynnes, hyfryd y bachgen tal o'r Gaerwen. Gwelais ar unwaith mor dderbyniol yr oedd gan ei gydberfformwyr.

Wedi imi ddechrau gweithio hefo BBC Cymru gwahoddais Derek i ymddangos mewn rhaglenni canu-ysgafn a chyn bo hir iawn dangosodd ei werth fel cerddor a pherfformiwr. Ymhen amser aeth yn athro ysgol (un poblogaidd dros ben hefyd, fel y gwelsom pan ddeua i rhai o'i ddisgyblion yn rhan o gynulleidfa *Hobyderidando)* ac y mae'n amlwg ei fod yn mwynhau dysgu ond yr oedd galwad perfformio cyhoeddus arno yn cynyddu'n gyson ac, o'r diwedd, penderfynodd roi ei holl amser i deledu, radio, recordio a theatr. Daeth yn berfformiwr gyda'r prysuraf yng Nghymru gan amlygu, yn ogystal, ei ddawn gomedïol fel actor, ar y cychwyn yn *Dau-a-Hanner* (o dan gyfarwyddyd bachgen arall o'r Gaerwen, sef Dyfed Glyn Jones) ac yna yn *Ryan a Ronnie*. Datblygodd hefyd fel cyflwynydd rhaglenni ac, yn arbennig, fel perfformiwr amlochrog eithriadol ar raglenni plant.

Dyna fframwaith yr hynt. Fe'i llanwodd yntau hi i'w hymylon hefo'i ymroddiad trylwyr, ei ymdrech gyson i ymberffeithio, ei deyrngarwch i'w gydweithwyr, ei hynawsedd tuag at bawb mewn stiwdio ac ar lwyfan a'i ddibynolrwydd llwyr. Bachgen dawnus; bachgen nobl.

Meredydd Evans.

* * * * * * *

Gyda marwolaeth Derek Boote fe gollodd Cymru un o'i darlledwyr mwyaf amryddawn, a'i gydweithwyr gyfaill hwyliog ac annwyl. Collodd Graham frawd, a'i fam a'i dad fab - yn 31 mlwydd oed. Fe gollodd Liz gymar bywyd ar ôl tair blynedd o ddedwyddwch priodasol. Fe ddaeth Tachwedd 1974 ac annhegwch creulon i ni i gyd.

Hogyn o Fôn oedd Derek, ac arferion yr ynys yn amlwg yn ei ymarweddiad. Fe'i hyfforddwyd fel athro, a bu am gyfnod yn ymarfer y grefft honno, ond 'roedd ei fryd ar fyd adloniant ac i honno yr aeth ar y cyfle cyntaf. Ymunodd â chwmni "Gwlad y Gan" yn nyddiau T.W.W. ac o dipyn i beth fe welwyd ei wyneb ar raglenni cynnar BBC Cymru. Daeth yn adnabyddus fel "cefnwr" holl gantorion Pop Cymru drwy ei gannoedd ymddangosiadau ar raglenni "Hob y Deri", "Disc a Dawn" a'u tebyg. Rhywle yng nghefndir bob un o'r rhaglenni hyn yr oedd ei gorff sylweddol a nodau pendant ei ddwbl bâs. Llusgai ei offerynnau o stiwdio i stiwdio gyda'r grwgnach digri oedd mor nodweddiadol ohono a dros · blynyddoedd daeth yn rhan anatod o'n cynnyrch adloniac

O dipyn i beth trodd y "cefnwr" yn .laenwr". Ei hoff offeryn oedd y gitar, a gyda hwnnw o'i flaen fe ganodd ei ffordd i galonnau plant o bob oed. Mentrodd i feysydd eraill hefyd fel digrifwr, actiwr, a chyflwynydd, ond ei uchelgais fawr oedd llwyddo fel canwr. Dros y blynyddoedd gwrandawodd ar recordiau o'i hoff gantorion a breuddwydiai am fod yn un ohonynt. Yr oedd ganddo lais melfedaidd a dyheai am gael sefyll ar ei draed heb na gitar na dwbl bâs o'i flaen er mwyn arddangos ei wir ddawn. Trwy ddyfalbarhad fe lwyddodd i wneud hyn ac fe wyddai pawb ohonom ym mêr ein hesgyrn fod dyfodol disglair ar y gorwel.

Ynghanol ei lwyddiant te gafodd ddamwain erchyll, a threuliodd saith wythnos boenus yn Ysbyty Llosgiadau Casgwent. Yno bu'n brwydro, yn gyntaf am ei fywyd, ac yna am wellhad buan. Ynghanol ei lwyddiant, eto, fe gollodd y frwydr a'n gadael i gyd yn ddigysur a thrist.

Yn ystod y cyfnod, cymharol fyr, y bu yn ein plith fe roddodd bleser i filoedd, ac fe wnaeth hynny gydag ymroddiad llwyr. Yn ystod y saith wythnos o ddioddef fe ddangosodd wroldeb a phenderfyniad di-ildio.


Ein cysur heddiw yw melysder y cof amdano, fel diddanwr, cydweithiwr, cyfaill, a'r dewraf o ddynion.

I'w frawd, ei rieni, ac i Liz, a olygai gymaint iddo mewn iechyd ac yn arbennig yn ei gystudd, ein cydymdeimlad a'n gobaith y daw iddynt hwy hefyd, ryw ddydd, gysur a llawenydd o'r cof amdano.

GERAINT STANLEY JONES

# MAES Y PLANT

## Pos Croseiriau y Nadolig



**Ar draws**

2. Crud Iesu Grist (6)
5. Babi buwch (2)
6. Caneuon y Nadolig (7)
10. Roedd un liwgar gan Joseff (3)
11. "Dawel- - - - " (Carol (3)
12. Roedd pobol yn dilyn y "- - - - ;Lwyd" ers llawer dydd yn y Nadolig.(4)
13. Adeilad sy'n anrheg i Gymry'r ddinas yw "- - .'r Cymry" (2)
14. Enw merch. (3)
15. Sylfaenydd yr Urdd oedd Ifan - - Owen Edwards (2)
17. Enw ar wlad hud yw Tir Na'n - - - (3)
20. Diwedd preseb! Tric ydy hwn! (2)
22. Y ddinas lle ganwyd Yr Iesu (8)
25. Os ydych chi ym mhegwn y gogledd, mae'n rhaid ichi fynd i'r cyfeiriad yma (2)
27. Ar noson oer, ddi- - - - ,Mae clychau Cantre'r Gwaelod yn canu dan y dwr!(4)
28. Canwn garolau iddo- - (2)
31. Mis cynta'r flwyddyn (6)
34. Problem! Gweler 7 i lawr.
36. Gŵr Mair a thad Yr Iesu(5)
39. Un o anrhegion Yr Iesu
40. Pen Tregaron! Tric eto (3)

**I lawr**

1. Nifer y brenhinoedd (3)
3. a 6. Dyn sy'n ysgubo'r simnai adeg y Nadolig. (4.4)
4. Mae hen frân fawr ddu yn eistedd yma (2)
5. Tyrfa (2)
7. Ewch- - - i ddatrys 34 ar draws (3)
8. Llawer (3)
9. Anifail a gariodd Mair (4)
12. Mam Yr Iesu (4)
16. Gêm ydy- - - droed (3)
18. Meini gwerthfawr (5)
19. Dim- - yn y llety (2)
21. Coeden ar gyfer ffon (6)
22. "Ar gyfer heddiw'r- - - - " (4)
23. Ail anrheg Crist (3)
24. Sialens (3)
26. Murmur (2)
29. Diod (3)
30. a 33. Aeth Joseff; Mair a'r Iesu ar- - i'r- - - - (2,4)
32. Yn- - - oesoedd (3)
34. Fe ddioddefodd y brenin yn yr Aifft ddeg o'r rhain (3)
37. "- - dan orfoleddu" (2)
38. Nid ar y ddaear;yn y - - (2)

# PWY YW SANTA CLOS?

Myfi yw Santa Clos
Sy'n crwydro bryn a rhos......

*Ond pwy, o ddifrif, yw Santa Clos?*

*Yn ol un stori, roedd gwr ifanc, cyfoethog yn cerdded ar hyd stryd pan glywodd e swn wylo yn dod o dy dyn tlawd. Fe wyddai'r gwr ifanc fod tair merch yn byw yn y ty gyda'r tad ac fe glywodd un ohonyn nhw'n dweud,*

*'Dad, gadewch inni fynd allan i'r ddinas i gardota!'*

*Ond dyma oedd ateb eu tad,*

*'Ddim eto. Gadewch inni weddio. Dwy i ddim am i mhlant i gardota.'*

*Fe frysiodd Nicolas, y gwr ifanc cyfoethog adre. Roedd ganddo fe lawer o aur, a dyma fe'n penderfynu mynd ag ychydig ohono i dyr dyn tlawd. Drwy lwc fe welodd ffenest agored ac fe lwyddodd i'w wthio i mewn tra roedd y teulu'n gweddio.*

*Fe wnaeth hynny ar ddau dro arall hefyd, ond ar y trydydd tro, fe ddaeth un o'r merched at y ffenest a gweld pwy oedd e. Ac o, roedden nhw'n ddiolchgar, ac yn credu mai Duw oedd wedi ei anfon e. Roedd Nicolas mor falch iddo wneud y teulu'n hapus nes iddo fe benderfynu treulio'i holl fywyd yn rhannu anrhegion i bobol, heb yn wybod iddyn nhw — yn gyfrinachol. Yna, gydag amser, fe gafodd lysenw, Sant Nicolas neu Santa Nicolas, neu Santa Clos . . .*

*Ac mae e'n para i rannu anrhegion yn gyfrinachol!*


## GWESTY PLAS MAENAN

Gwesty Cymreig Cyntaf Cymru

- "DIWEDYDD". Noson draddodiadol gyda bwydydd Cymreig, medd, gwin cartref, difyrrwch gyda'r delyn etc.
- YSTAFELL FWYTA lle cewch fwydydd nodweddiadol a gwasanaeth gyda gwên.
- BARIAU cyhoeddus a golygfeydd godidog o Ddyffryn Conwy.
- POB LLOFT gyda ystafell ymolchi, breifat, ffôn, teledu, offer gwneud te etc.
- CYMRAEG yw prif iaith Plas Maenan.
- CYMERADWYWYD gan Ifas y Tryc ac eraill o gewri'r genedl!
- TELERAU ISEL ar gyfer penwythnosau'r gaeaf.
- CYFARWYDDWYR Enid ac Alan Wyn Jones, gynt o Rhiwbeina.

Ffôn : DOLGARROG 232





**Yr ydym yn awr, fel y gwelwch, mewn sefyllfa i ddosbarthu nwyddau yn llawer cyflymach.**

**Mynnwch alw i'n gweld neu cysylltwch â ni ar y ffôn.**

**FFRWYTH** Pontcanna ☎ 21976

# FI JI BOD YN AWSTRALIA

Taith bedair awr ydi hi o Nandi i Sidney mewn awyren jumbo, mor sydyn a hynny. Tri peth pwysig welis i yn Sidney — glaw, Pont yr Harbwr a'r Ty Opera — yn y drefn yna. Glaw ne beidio bore canlynol roeddwn i allan yn dysgu sut i luchio bwmerang. A wyddoch chi be — mae hi'n hawdd. Mi fedra unrhyw ffwl neud. Dyna pam oni'n chael hi'n hawdd ma shwr. Dal y bwmerang yn y llaw dde ne yn y llaw chwith os da chi'n ddwyieithog. Darganfod cyfeiriad y gwynt wrth luchio gwelltyn i'r awyr, ne papur pum punt os da chi'n gynhyrchydd ac yna troi 45 gradd o gyfeiriad y gwynt a lluchio. Ma gen i un fan hyn - yn y llaw dde, tu ol i'r pen a lluchio wrth gwrs dydi hi ddim yn gweithio bob tro.

Wyddech chi fod ceidwad y cangarws yn Zoo Park Taronga Sidney yn Gymro Cymraeg o Llanbed a bod Jessie Griffiths sy'n gyflawn aelod yng nghapel Cymraeg Melbourne wedi actio efo nhad yng nghwmni drama ô Fon pan oni'n beth bach. Perffaith wir i chi.

Uchafbwynt y daith i Awstralia oedd treulio pedwar diwrnod ar fferm Owen Hayes, fil o filltiroedd i'r Gogledd o Sidney ar y ffin efo Queensland yn y bush ynghanol y wlad. Da chi gyd wedi clywed can Hogia'r Wyddfa - Bwshes bach y wlad. Ia! Wel! 110 o filltiroedd o aceri dyna oedd maint y fferm a nid hon oedd y fwya. Mi oedd fferm drws nesa gymaint a Chymru. Cofiwch chi er i maint hi mi oedd na lai o waith edrach ar i hol na ffarm fynydd yng Nghymru, pan gofiwch chi fod Owen Hayes yn medru hedfan o gwmpas i fferm mewn bore a'i feibion yn hel defaid ar gefn motor beics, hel gwartheg wyth mil ohonny nhw ar gefn ceffyla, hel defaid, dofi ceffyla gwyllt, marcio, brandio, cneifio — dyna fu hanes ni am bedwar diwrnod ac mi fentrai ddeud y gwnewch chi fwynhau gweld y ffilm.

Tra roeddwn ni yn Broken Hill mi weles i fy ffrind a'm cyfaill mynwesol Mohammed Ali yn dangos beth oedd be i George Forman. Wyddoch chi be ar ol i mi roi'r gyfrol honno o waith Syr Thomas iddo fo — ew mae o wedi dwad yn i flaen.

Fe orffennodd y daith ym Melbourne — pum wythnos a pymtheg mil o filltiroedd yn ddiweddarach. Melbourne, Singapore, Bayrain, Frankfurt, Heathrow, car Dyfed Glyn Jones, Caerdydd — adre efo'r wraig a'r mab Ceri, a'r cwestiwn cynta ofynnodd o a finna newydd gyrraedd — "Dadi mynd i Fiji?" Wel, Dadi wedi bod yn Fiji ac yn Ostrelia, er bod y cyfan fel breuddwyd — ond un wir.

Ac fe gewch gyfle i ail fyw y freuddwyd efo mi Mis Ebrill nesa — cyfres o chwech o raglenni yn dwyn y teitl 'Pen Draw'r Byd'.

HYWEL GWYNFRYN

# O'r Tabernacl

Nos Sul, Tachwedd 17 cawsom wasanaeth arbennig i neillduo'r diaconiaid newydd y soniais amdanynt yn y rhifyn olaf. Roedd y gwasanaeth o dan ofal ein gweinidog ac yn yr oedfa canwyd emyn wedi ei chyfansoddi ganddo'n arbennig i'r gwasanaeth. Dyma'r pennill laf

Arglwydd grasol yr Efengyl
Diolch am dy gariad mawr
Ac am ffydd draddodwyd unwaith
Er bendithio daear lawr.
Drwyddi cawsom dy adnabod
A chael bywyd yn dy wedd
Yn ei grym arfaethwn eto
Ryngu bodd Tywysog hedd.

Cofiwch gyngerdd Nadolig y Tabernacl, nos Sul, Rhagfyr 22ain am wyth o'r gloch. Nadolig Llawen i bawb a blwyddyn newydd ddedwydd dda.

## LLYTHYR O SAIN FFAGAN

*ANNWYL SYR,*

*Rhaid cywiro rhai ffeithiau honedig yn llythyr Miss Sian Myrddin ynglŷn ag ymddiswyddiad Mr Marc Phillips fel gofalwr yn yr Amgueddfa Werin.*

*Gan ei fod i ymddangos gerbron y Llys am ail drosedd gyffelyb awgrymwyd i Mr Phillips os ydoedd am gyflawni cyfres o weithredoedd tebyg dylai fod mewn swydd a oedd yn caniatau'r rhyddid hwnnw iddo ac yn sicr nid mewn swydd a oedd yn ymwneud â gofalu am eiddo. Cytunodd a rhoes y rhybudd arferol.*

*Hefyd dylai Miss Myrddin wybod bod yr Amgueddfa yn sefydliad cenedlaethol annibynnol ac nad eiddo'r llywodraeth moi chasgliadau fel yr awgryma. Cwbl ddi-sail a chamarweiniol hefyd yw'r honiad fod a wnelo'r Swyddfa Gymreig mewn unrhyw ffordd â'r ymddiswyddiad.*

*Yr eiddoch yn gywir*

*TREFOR M. OWEN*
*Curadur*


AMGUEDDFA WERIN CYMRU
sain ffagan

Dowch i weld: Y Castell a'i Erddi, Ysgubor y Strytlydan, Ffatri Wlan Esgair Moel, Capel Pen-rhiw, Ffermdai Abernodwydd, Cilwent, Kennixton, Hendre'r ywydd Uchaf Bwthyn Llainfadyn, Y Tanerdy, y Talwrn Ymladd Ceiliogod, y Tollborth a'r Efail. Dylech hefyd weld yr Oriel Ddiwylliant Materol lle dangosir agweddau ar fywyd a chymdeithas yng Nghymru.

Gwelwch hefyd y Crefftwyr wrth eu gwaith.

Os ydych yn cymryd diddordeb mewn traddodiadau llafar, canu gwerin neu dafodieithoedd Cymru, holwch am yr Adran Draddodiadau Llafar a Thafodieithoedd.

Gellwch cael cinio a the yn yr Ystafell Fwyta ond dylid gwneud trefniadau ymlaen llaw ar gyfer partion niferus. Eich BWS O GAERDYDD yw rhif 32 o'r ORSAF FYSIAU GYFFREDINOL.

**Mynediad:** *Pobl mewn oed 10c (20c Gorffennaf ac Awst)*
*Plant o dan 16 5c.*
*Pensiynwyr yn rhad.*
*Dosbarthiadau ysgol yn rhad pan drefnir ymlaen llaw.*
*Mynediad am ddim ar Ddydd Llun.*
*(ac eithrio gwyliau cyhoeddus).*

**Maes Parcio:** *Bysiau 15c*
*Ceir Preifat 10c*
*Beiciau Modur 5c*

**Oriau Agor:** **Dyddiau'r Wythnos -**
*Ebrill, Mai, Mehefin a Medi 10.00am - 6.00pm*
*Gorffennaf ac Awst 10.00am - 7.00pm*
*Hydref - Mawrth 10.00am - 5.00pm*

**Suliau -**
*Ebrill - Medi 2.30pm - 7.00pm*
*Hydref - Mawrth 2.30pm - 5.00pm*



CYMDEITHAS
TAI GWYNEDD

Buddsoddwch yn y Gymdeithas sy'n prynu tai yng Ngwynedd i'w gosod fel cartrefi parhaol i deuluoedd lleol.

Gellwch fuddsoddi (am 3 blynedd o leiaf) trwy lenwi'r ffurflen hon a'i dychwelyd, gyda'ch siec, i'r cyfeiriad isod:

*Amgaeaf siec am £........... i'w buddsoddi yng Nghymdeithas Tai Gwynedd ar log o 9%.*

*Dymunaf i'r llog -*
*a) gael ei gadw yn fy nghyfrif.*
*b) gael ei dalu imi bob 6 mis*
*neu c) gael ei roi i'r Gymdeithas.*

Manylion pellach oddi wrth:

Dafydd Iwan, Trefnydd Tai Gwynedd,
Ffordd Llanllyfni, Penygroes, Caernarfon.



*Beth am alw mewn am baned yng Nghanolfan yr Urdd? Mae'r caban ar agor bob nos, fe fydd Luned a Liz yn falch o'ch gweld.*

# Y GANOLFAN

Dydd Baneri

Dydd Sadwrn 30 Tachwedd. Cannoedd o bobl yn cerdded strydoedd Caerdydd yn gwisgo bathodyn yr Urdd. Anhygoel. Dydd baneri yr Urdd yng Nghaerdydd oedd hi, a phwyllgor rheoli'r Ganolfan oedd wedi trefnu'r digwyddiad. Gwnaed elw sylweddol ar y dydd, arian fydd yn mynd tuag at gostau cynnal y Ganolfan. Hoffa'r Pwyllgor ddiolch o waelod calon i bawb a fu yn helpu i gasglu yn ystod y dydd, ac wrth gwrs i bawb a gyfranodd mor hael.

Adran Dysgwyr

Daeth tymor y Gaeaf i ben, a rhaid dweud mai llwyddiant ysgubol oedd rhaglen yr Adran Dysgwyr. Roedd tua 40 o ffyddloniaid yn cyfarfod bob nos Fawrth, y rhan fwyaf ohonynt yn astudio'r Gymraeg fel pwnc yn yr ysgol Uwchradd. Roedd y gweithgareddau'n amrywio o wythnos i wythnos, o ddawnsio gwerin i ffilmiau Cymraeg, gemau iaith i ffug eisteddfod, chwaraeon i ganeuon gwersyll. Syndod mawr i'r Swyddogion a fu yma bob nos Fawrth oedd safon uchel y dysgwyr. Da iawn chi. Edrychwn ymlaen at y tymor nesaf.

## LLYTHYRAU

A ydych chi yn cael llythyrau pobl eraill yn cyrraedd eich ty chi weithiau gyda'r postmon? Wel yma yn swyddfa'r Ganolfan mae pob math o lythyr yn taro mewn. Llythyrau i'r 'Ganolfan Chwaraeon', iawn, chware teg medda chi. Beth am y 'Welsh School of Medicine'? Tynnwr coes efallai? A wedyn Ysgol Gymraeg Tonyrefail, ac yna Ysgol Gynradd Gymraeg Rhymni. Efallai fod pob amlen a Chymraeg arni yn mynd i'r 'Welsh place in Conway Road'.

Ond y gorau eto, a'r diweddaraf yw'r llythyr i 'Mr Wyn Roberts, Aelod Seneddol Conwy, Y Ty Cyffredin, Llundain'. Dim byd yn erbyn Mr Wyn Roberts, dim byd yn erbyn Llundain- yn ei le, ond mynd i alw Canolfan Yr Urdd Caerdydd yn dy cyffredin - wel.

## CWMNI DRAMA AELWYD CAERDYDD

Mae Cwmni Drama yr Aelwyd am fentro ei berfformiad cyntaf o ddrama dair act. 'Y Tad a'r Mab' gan J. Gwilym Jones yw hi. Fe'i llwyfannir hi ar nos Sadwrn 21 Rhagfyr am 7.30pm yn 'Y Sdiwdio' yng Ngholeg Cyncoed. Cynhyrchydd y ddrama yw R. Alun Evans. Peidiwch chwithau a cholli'r cyfle!

**EISTEDDFOD GADEIRIOL Y FRO**

**Neuadd Coleg Addysg Morgannwg Y Barri**

**Cystadlaethau i Gymry Cymraeg a Dysgwyr. Bydd y rhaglen ar gael yn y Flwyddyn Newydd oddi wrth:**

**Ysgrifennydd Cyffredinol**
**Mr Maxwell Evans**
**86 Redlands Road**
**Penarth**

**Ysgrifennydd Y Rhaglen**
**Mr Islwyn Jones**
**17 Gwenfô Drive**
**Wenvoe**

# NEWYDDION CWM RHYMNI

PENIGAMP

Roedd festri Bethel, Caerffili, yn llawn i wrando ar 'Penigamp' yn rhaglen y Gymdeithas Gymraeg. Dan lywyddiaeth medrus Alun Charles cafwyd cystadleuaeth frwd rhwng y ddau dim - y Parchedig Gwilym Morris, D.J. Owen, Meri Rhiannon a Bethan Williams ar y naill ochr ac Eiry Palfrey, Islwyn Morgan, Dafydd Islwyn a Menna Jones ar yr ochr arall. Daeth y noson hwyliog hon i ben gydag ymryson gorffen limerig, ac ymysg y llinellau gorau cafwyd y canlynol o un o'r gynulleidfa

Rhyw brydydd o blwyf Llanfihangel,
Oedd enwog am foesau tra isel,
Y merched a wridai
Bob tro y sibrydai
"Bydd yn ddiawles yn lle bod yn angel!"

Mynegwyd diolch ar ran y Gymdeithas gan Mrs Suzie Williams.

* * * *

PEN-SCONWR

Llongyfarchiadau i Ken Brace, Caerffili, ar iddo ennill Cwpan Curtis ar ei dymor cyntaf yng Ngholeg Masnach a Thechnoleg Bwyd, Llandaf.

Yn gyn-ddisgybl o Ysgol Rhydfelen mae Ken yn dilyn cwrs coginio yn y coleg ac enillodd y Cwpan yng wyneb cystadleuaeth gref o'r myfyrwyr eraill ar ei ddawn i wneud sconau.

* * * *

CRONFA'R MILIWN

Un o fanteision sefydlu cronfa yn debyg i'r un a sefydlwyd yn y Cwm at Gronfa'r Miliwn, yr Eisteddfod Genedlaethol, yw ei bod yn ysgogi llawer o weithgareddau lleol. Syfrdanol, er enghraifft, oedd sylweddoli na welodd Llanbradach gyngerdd yn Neuadd y Gweithwyr am dros bedair mlynedd ar hugain cyn yr ysgogiad hwn! Amheuthun, felly, oedd i'r pentrefwyr gael y cyfle i fwynhau cyngerdd yn cynnwys plant ysgolion lleol ynghyd â Chantorion Margaret Roach, Dewi ap Rhobert, Randal Isaac a Heather Jones. A hynny yn lle'r bingo beunosol arferol!

* * * *


DRAMA

Yn dilyn llwyddiant dwy ddrama fer gan Gwmni Drama Caerffili y llynedd mae'r Cwmni yn cynnal noson gyffelyb eleni ar nos Wener, Chwefror 14. Manylion pellach yn y rhifyn nesaf o'r Dinesydd.

* * * *

I'R GOGLEDD

Dymuniadau gorau i Idwal a Bethan Williams, Parc Watford, Caerffili, - mae'r ddau yn symud i fyw i Lanrug yn y flwyddyn newydd, wedi cyfnod byr ond gweithgar yn ein plith.




# Ffarwel

Dymuniadau da i Richard a Beti Wyn Jones, gynt o'r Rise, Llanishen, wrth ymddeol a symud o'r ddinas i fyw ger Bae Colwyn. Mawr yw diolch Cymry'r Ddinas am eu cyfraniad, ac i Beti am roddi profiad mor werthfawr i'r plant o genhedlaeth i genhedlaeth gydai'i chôr. Cadwodd sawl teulu oed â 'Chôr Beti Wyn' unwaith yr wythnos mewn gwahanol festrioedd a neuaddau am flynyddoedd lawer, ac fe gynhaeafodd y teuluoedd hynny dipyn bach o rin yr hen gorau bach cefngwlad. Fe lenwoch chi fwlch ym mywyd plant y ddinas, Beti Wyn, a diolch am eich ffyddlondeb yn dod trwy law a hindda i gadw'r oed â nhw. Diolch ar eu rhan. Y mae record "Y Meillion" ar ôl i gofio.

## Lloyd George's Favourite Dishes

*Cyhoeddir gan John Jones Caerdydd Cyf; Pris 60c*

"WELSH RECIPES"

*i'w gyhoeddi gan John Jones, Caerdydd yn Ionawr 1975 am 20c*

THE Miskin Street BOOKSHOP

Ar werth

YN 19 MISKIN ST., CAERDYDD.
*(yn agos i Theatr Y Sherman)*

TEL : 23516

AR AGOR DRWY'R WYTHNOS 10a.m. - 6p.m.
DYDD SADWRN 10a.m. - 5.30p.m.





*Dyna bedwar beth bynnag fydd yn derbyn y gwasanaeth newydd.*


# Portsmouth Sinfonia

**Nos Sul, Tachwedd 24, braint dinas Caerdydd oedd croesawu i'r New Theatre y Portsmouth Sinfonia i lwyfannu'r cyntaf a'r olaf o gyngherddau eu taith gyntaf y tu allan i Lundain. Chwarae teg i aelodau'r gynulleidfa - 'roeddynt yn ddigon hael a brwdfrydig i groesawu'n gynnes y fenter ryfedd hon, gyda phyliau o chwerthin teimladwy o far ansicr cyntaf 'Thus Sprak Zarathustra' (Strauss) hyd at y diweddglo ysblennydd, y 'William Tell' Overture, ac i fynnu i hwnnw encore.**

Ofer ceisio beirniadu'r agwedd dechnegol ar chwarae'r Sinfonia. Cawsant eu debut yn yr Albert Hall yn Llundain ym mis Ebrill gan gyflwyno eu hunain ar eu telerau arbennig nhw fel cerddorfa amatur yn perfformio'r darnau mwyaf adnabyddus yn y repertoire clasurol ond hynny o safbwynt cryn nifer o offerynwyr a oedd yn meddu ond y feistrolaeth leia' o'r offeryn dewisedig - hynny yw, rhyw 'free for all' cerddorfaol cyhoeddus. Anodd credu fod safon y perfformio wedi newid o'r mis Ebrill hwnnw. Mwdlyd oedd y perfformiad o'r Blue Danube a 'doedd hi ddim wastad yn hawdd adnabod y melodiau enwog o ganol Pumed Simffoni Beethoven; gan farnu wrth y rhaglen 'doedd dim yn y repertoire clasurol yn rhy herfeiddiol iddynt. Ond er i ni ddioddef aml i bwl o chwerthin afreolus 'roeddym i gyd fel cynulleidfa yn barod i fwynhau, ac i fwynhau yn annad dim y teimlad a gyfleuwyd o'r sbri o wneud cerddoriaeth ein hunain. Arbedwyd ni rhag awyrgylch ffurfiol y neuadd gyngerdd, y 'bow ties' a'r cotiau llaes. 'Roedd y perfformwyr yma yn fyw i'r llygaid - yn enwedig y boi yn y rhes flaen a'i ffidil las - ac yn amlwg yn mwynhau mewn ffordd ddealladwy, ac nid arall-fydol, y profiad o greu cerddoriaeth pa mor amrwd bynnag y bo. Rhyw fath o 'happening' yn y neuadd gyngerdd fel petae.

Rhaid canmol un neu ddau o berfformiadau cywir. Cafodd Sally Binding, a'i gwallt wedi ei rwymo mewn rhubanau coch, hwyl amlwg wrth chwarae concerto enwog Tchaikovsky i gyfeiliant garw'r gerddorfa. Cywir hefyd oedd y datganiad o'r celeste yn Nawns y Sugar Plum Fairy. Ond onibai am y perfformiadau hyn a sylwadau eironig-ddifrifol y cyflwynydd ar feistrolaeth a chywirdeb y cyfansoddwyr eu hunain, brwdfrydedd oedd cnewyllyn y perfformiad a hyn yn ennyn yn ei dro lawer o ddifyrrwch a rhyw 'chydig bach o gerddoriaeth. Rhwydd hynt i'r Portsmouth Sinfonia a thipyn o Alun Hoddinott amdani y tro nesaf, efallai.

**Sara Howell**





Mae pawb o bwys yng Nghymru heddiw, medde nhw, yn darllen

# Y CYMRO

*Y PAPUR WYTHNOSOL CYMRAEG I GYMRU GYFAN*

Mae pob Cymro Cymraeg yn bwysig yn ei ffordd ei hun, ac eto, nid pob un sy'n darllen "Y Cymro" bob wythnos, hyd yn oed ym mhrifddinas Cymru.

BETH AM NEWID Y SEFYLLFA?

Wedi'r cyfan, mae gennym rywbeth ar gyfer pawb - colofn wyddonol, garddio, gwyddoniaeth, chwaraeon, pynciau'r dydd, barddoniaeth, crefydd, heb son am y newyddion diweddaraf sydd o bwys i Gymru, a cholofn lythyrau fywiog yn ymdrin â'r materion hynny.

Gallwch archebu'r "Cymro" yn rheolaidd drwy eich siop bapur newydd leol.
Neu, os mynnwch, gallwch danysgrifio a chael eich copi yn rheolaidd drwy'r post.
(am flwyddyn, £6.76; am chwe mis, £3.38).
Llenwch y ffurflen hon:

Enw ........................................

Cyfeiriad ........................................

........................................

*Dychweler i Swyddfa'r 'Cymro', Caxton Press, Croesoswallt (Oswestry).*

# GWASG Y DREF WEN

Erbyn hyn mae dyn wedi dysgu edrych ymlaen am y casgliad o lyfrau lliwgar i blant y bydd Gwasg y Dref Wen yn eu cyhoeddi bob blwyddyn tuag adeg y Nadolig. Eleni mae'r casgliad yn fwy nag erioed o'r blaen - saith o deitlau - sy'n adlewyrchiad o lwyddiant parhaol y wasg. Ac yn ogystal â bod yn fwy, mae'r casgliad hwn hefyd o ansawdd uwch os rhywbeth na'i ragflaenwyr - ac o gofio llyfrau fel *Prentis y Dewin* a *Popcorn yr Hiporheinoseros* a welsom y llynedd, mae hynny'n ddweud go fawr.

Ymhlith sêr y casgliad eleni y mae dau lyfr a fwriedir yn arbennig ar gyfer plant sy'n Gymry Cymraeg: Ra ta ta tam (£1.30), sef hanes hynod am injian fach, a *Llyfr Mawr y Môr-ladron.* Mae'r ddau yn gyforiog o luniau lliwgar hollol fendigedig, ac mae'r storiau wedi'u hysgrifennu mewn Cymraeg coeth sy'n siwr o gyfoethogi iaith y plant sy'n eu darllen neu sy'n gwrando arnynt yn cael eu darllen.

Mewn oes pan mae prisiau llyfrau'n codi mor gyflym, mae'n werth sylwi bod y llyfrau hyn yn rhatach o lawer na rhai cyffelyb yn Saesneg - yn aml cymaint â 40% yn rhatach - a hynny heb aberthu dim o ran lliwgarwch, diwyg na thrylwyredd y gwaith golygyddol. Yn wir, mae'n amheuthun cael llyfrau fel y rhain sy'n agor ein llygaid ar y cynnyrch gorau o wledydd y byd ac sy'n gallu herio - a churo - llyfrau harddaf Lloegr am sylw ein plant.

## YR AMGUEDDFA GENEDLAETHOL

Gweithgareddau Gwyliau Nadolig ar gyfer Plant

30 Rhagfyr - 6 Ionawr (ac eithrio Dydd Calan a dyddiau Sadwrn a Sul)

Gweithgarwch i blant 6-12 oed. Rhoddir cyfleusterau arbennig iddynt yn yr Ystafell Groeso, 10a.m. - 1p.m. a 2-4.30p.m. bob dydd. Ceir nifer o holiaduron Cymreig wedi'u seilio ar wrthrychau yn yr orielau. Gellir cael byrddau llinellu, craeons a stoliau ar fenthyg.


GWNEWCH EICH TREFNIADAU TRIN GWALLT AR GYFER Y NADOLIG YN AWR

* Mae Wenda, ein steilydd, sy'n siarad Cymraeg, ar gael i drin eich gwallt — ffôniwch 41266.

* Treiwch arlliw deniadol am olwg ysgafn; neu rhowch bersonoliaeth newydd i chi'ch hunan gyda lliw gwallt gwahanol, pyrm bwbli cyrliog, torri gwallt arbennig a steilio — triniaeth dwylo.

* Bydd Malcolm Shipman yn sicrhau eich bodlonrwydd wrth oruchwylio'r salon yn bersonol.

Malcolm Shipman...
Hair Fashions 94a Albany Rd Cardiff ☎ 41266

FFASIYNAU GWALLT 94A ALBANY ROAD, CAERDYDD


# COLOFN SBECTOL SIAN

Roeddwn wedi rhagweld y miri bara tua mis yn ol. 'Da chi'n cofio'r dyn Crawford yna yn addo sianel Gymraeg i ni? Wel roedd yna un amod - mae'n rhaid i bawb brynu mwy o'i grim cracyrs o. Felly doedd neb isio bara. Mae'r tymor hwn, medda nhw i mi, yn un o ewyllys da a chwaergarwch (brawdgarwch i chi'r hogia) ac felly rwyf am fod yn neis wrth bawb ac am ddefnyddio'r gornel fechan hon i ddatgelu cyfrinachau fy sach anrhegion Nadolig.

Rwyf am yrru map o Landaf i Gwmni Harlech. Os yw'r cwmni am gyd weithio hefo'r Bib yn y dyfodol fe fyddai'n syniad da i bawb wybod yn union ble mae swyddfeydd y BBC. Alla i ddim rhoi anrheg i un heb roi rhywbeth i'r llall - da chi'n gwybod sut mae nhw'n cega ac yn hewian am y petha lleia' - felly mae gen i anrheg arbennig i'r BBC - cit dw it iorselff o Weinidog Methodist. Gwaith deg munud i'w osod. Cadwch o yn y cwpwrdd a phan aiff tâp gwasanaeth boreol ar goll - agorwch y cwpwrdd, pwyso'r botwm, a dyna chi fe gewch bregeth gwerth chweil o'i grombil mecanyddol. Ond plis peidiwch a cholli allwedd y cwpwrdd.

Fe gaiff Hywel Gwynfryn gopi newydd o record Endaf Emlyn 'Salem', mae'n siwr fod yr un sydd ganddo wedi hen wisgo bellach.

Tocyn aelodaeth Cymraeg i aelodau Clwb y Bont Pontypridd yn lle'r un Saesneg a anfonwyd i'r aelodau ar y dechrau. Mae'n wir mai tocyn dros dro oedd o, ond efallai mai rhywbeth dros dro oedd y ddelwedd - "gwbl ddwyieithog, gyda'r Gymraeg yn flaenaf" a'r prif fwriad o "hyrwyddo ac amddiffyn pob agwedd ar ddiwylliant Cymru" (Datganiad i'r Wasg, Clwb y Bont. Medi 1974).

Fy anrheg i'r Dinesydd? Wyddoch chi fod 'Y Dinesydd' yn llyncu tua tair coeden gyda phob cyhoeddiad (O bren y gwneir papur cariad) Felly rwyf am anfon dau bric tân a choes brwsh llawr i'r Golygydd ar unwaith i mi gael gair gyda chi y tro nesaf. Gyda llaw roeddwn wedi bwriadu son mwy am y busnas bara ond mae'n debyg y bydd y cyfan yn stel yn reit fuan. Nadolig Llawen.


SIOP Y TRIBAN

- Yr unig siop ag ynddi restr lawn o Gardiau Cyfarch Cymraeg.
- Y detholiad gorau yng Nghaerdydd o lyfrau Cymraeg a llyfrau am Gymru.

6 Wyndham Arcade, Caerdydd.

Ffôn : 30042



Hen Lyfrau yn eisiau

hen neu ail-law. Hefyd cylchgronau a phapurau. Gallwn alw i'w gweld.

Siop y Pethe
Aberystwyth
Dyfed

Ffôn 7120

# Beth am anrheg Nadolig gan Wasg Gomer?

*O Wasg Gomer yn ddiau,*
*Y daw'r cynhaeaf gorau*
*At y Nadolig yn ddi-ffael,*
*Cewch gynnyrch hael o lyfrau.*

**LLYFRAU CLAWR PAPUR**

GWANWYN DIWEDDAR gan MAIR DAVIES 40c
Rhamant ysgafn gan awdur newydd, wedi ei lleoli yn Ne Ceredigion tua 1860 yng nghyfnod y llongau hwyliau.

BETH YW'R HAF......? gan MARI HEADLEY 40c
Nofel glawr papur afaelgar, deimladwy gan awdur 'Awelon Darowen' a 'Ffenest y Gegin'.

Y NOS NA FU gan TOM MACDONALD 40c
Telyneg o nofel am garwriaeth pobl ifanc gan awdur 'Y Tincer Tlawd'.

CYFRINACH Y LLUDW gan T. LLEW JONES 40c
Nofel newydd sbon gan un o'n llenorion amlycaf, yn dilyn anturiaethau Sarjant Tomos.

CHWARAE'N TROI'N CHWERW gan MALDWYN JONES 40c
Nofel dditectif gyffrous ar gyfer dysgwyr gan awdur 'Fe Ddaw Ffenics' a 'O'r Anialwch'.

COFIANT Y DR. R.P. HOWELLS gan EIRWEN MATHEWS 40c
Cofiant i wyddonydd arbennig o ddisglair.

**HEN FFEFRYNNAU (ail-argraffiadau)**

WILLIAM JONES gan T. ROWLAND HUGHES 60c

CHWALFA gan T. ROWLAND HUGHES 60c
Dwy nofel boblogaidd gan y dewraf o'n hawduron a bywyd chwarelwyr yng nghyfnod streiciau yn gefndir iddynt.

YN OL I LEIFIOR gan ISLWYN FFOWC ELIS £1.00
Ffefryn pobl ieuainc ac oedolion. Lluniwyd cyfres deledu Lleifior o'i chwmpas.

HEN BENILLION casgliad T.H. PARRY WILLIAMS 50c
Cyfoeth o draddodiad llafar gwerth ei brynu a'i gadw am bris rhesymol iawn. Ni ddylid fod hebddo.

**LLYFRAU PLANT**

PINCI'R OCTOPWS BACH cyf. EIRLYS LEADER 40c
Llyfr llawn lliw ar gyfer y plant ieuengaf.

TEULU NEWYDD PINCI cyf. EIRLYS LEADER 40c
Arluniadau gan Margaret Thomas.

**BEIRNIADAETH LENYDDOL**

GWENALLT : BARDD CREFYDDOL gan J.E. MEREDITH 90c
Darlith Davies ar waith llenyddol Gwenallt o safbwynt crefydd. Cynhwysir CREDAF, ysgrif nodedig Gwenallt ei hun.

Y TRADDODIAD RHYDDIAETH YN Y CANOL OESOEDD go. GERAINT BOWEN £4.75
Cyfrol o ddarlithoedd diddorol, chwaer gyfrol i Traddodiad Rhyddiaeth.

**CASGLIADAU**

CERDDI '74 gol. T. GWYNN JONES £1.00
Detholiad o gerddi a ymddangosodd yn ystod y flwyddyn hon.

STORIAU '74 gol. ISLWYN JONES a GWILYM REES HUGHES £1.25
Storiau caru, llawen a thrist, gan awduron poblogaidd.

**LLYFRAU SAESNEG O DDIDDORDEB**

POEMS '74 gol. T. ELVED LEWIS £1.00
Casgliad o gynnyrch barddonol y flwyddyn.

POETRY OF WALES 1930-1970 gol. R. GERALLT JONES £4.25
Casgliad swmpus o farddoniaeth ddiweddar o gyfnod T. Gwynn Jones ymlaen, ynghyd a chyfieithiadau o waith y golygydd a rhai gan yr awduron eu hunain. Rhagymadrodd cynhwysfawr.

A MOUSE RAN UP MY NIGHTIE gan EDITH COURTNEY £2.25
Atgofion plentyndod anarferol yn cael eu hadrodd yn llawn hiwmor a thynerwch, ac yn cadw sylw'r darllenydd i'r diwedd.

GERALD OF WALES J.P.F. MILES
Cyfrol i ddathlu wyth can mlwyddiant Gerallt Gymro.

**GWASG GOMER**
**LLANDYSUL · DYFED**




*Wlpan Caerffili* Llun - Gordon Weaver

# Wlpan Caerffili

Pan agorwyd drysau Ysgol Gymraeg Caerffili ym mis Medi, roedd hi'n ddechrau tymor nid yn unig i'r plant ond hefyd i grŵp o oedolion â'u bryd ar ddysgu siarad Cymraeg.

Ac am ddeg wythnos bu tri ar ddeg o bobl o Gaerffili yn dilyn cwrs Wlpan am bum noson yr wythnos am ddwy awr bob nos. Cynhaliwyd y cwrs o dan nawdd Adran Efrydiau Allanol, Coleg y Brifysgol, Caerdydd, a roedd y trefniadau lleol a'r hyfforddi yng ngofal Mr Alun Charles, Caerffili, ynghyd â thîm o ugain o athrawon o'r cylch.

Yn ystod y cwrs datblygodd y grŵp yn gymdeithas hapus dros ben ac ni chollwyd yr un aelod ar hyd y daith. Er bod galwedigaethau'r oedolion yn amrywio'n fawr, roedd y cymhellion dros ddysgu'r iaith yn gyffredin iddynt i gyd. Roedden nhw'n ymwybodol iawn o'u gwreiddiau, ac yn awyddus iawn i allu siarad Cymraeg â'u ffrindiau mewn gwaith a chymdeithas ac â'u plant sy'n mynychu'r ysgolion Cymraeg lleol.

Bellach mae'r oedolion wedi cyrraedd eu nod gwreiddiol. Drwy fynychu'r cwrs yn gyson a gweithio'n galed a drwy gyd-gyfarfod dros y penwythnosau yn eu gwahanol gartrefi i ymarfer, maen nhw'n gallu ymgomio'n naturiol nawr yn eu cyfrwng newydd. Ar un achlysur cynhaliwyd noson win a chaws ganddynt a chyfranwyd elw'r noson tuag at Gronfa Miliwn, Eisteddfod Genedlaethol Cymru.

Yn ystod pythefnos ola'r cwrs cafodd yr oedolion y cyfle i fwynhau cwmni cylch eang o bobl gan gynnwys Mr Chris Rees a Mr Cennard Davies o'r Barri a'r Dr Meredydd Evans a Mr Gwilym Roberts o Gaerdydd a chyflwynwyd gwersi amrywiol iddynt drwy gyfrwng y Gymraeg.

Ar ddiwedd y cwrs trefnwyd dwy noson arbennig ar gyfer y grŵp. Yn y naill difyrrwyd hwy, ynghyd â dosbarthiadau nos Y Groes-wen, gan barti penillion Tannau'r Twyn o dan ofal Mrs Meri Rhiannon Ellis, Caerffili, a chan Mr Dewi ap Robert, Llanbradach. Yn y llall cafwyd noson o sgwrs a choffi a chân yng nghwmni aelodau U.C.A.C. Caerffili. Ar y ddau achlysur cafodd yr oedolion nid yn unig y cyfle i sgwrsio yn Gymraeg ond hefyd i ehangu cylch eu ffrindiau a dod i adnabod Cymry Cymraeg y cylch yn well.

Gobeithir nawr y bydd yr oedolion yn ymdoddi'n naturiol i fywyd Cymraeg yr ardal. Mae pethau'n argoeli'n dda yn y cyfeiriad yma. Mae dau aelod eisoes yn helpu yn ysgolion meithrin y cylch ac un arall yn ymddiddori yng ngweithgareddau Aelwyd yr Urdd, Caerffili.

Bwriad yr oedolion nawr yw cyfarfod ar sawl achlysur hyd at y Nadolig cyn ail afael yn eu gwersi unwaith eto yn y flwyddyn newydd pan bara-toir cwrs pellach ar eu cyfer, sef Cwrs Gloywi Cymraeg.

# MERCHED Y WAWR

## Cangen Creigiau

Daeth nifer dda o aelodau hen a newydd ynghyd i gyfarfod cynta'r tymor, a gynhaliwyd yn ein cartref newydd yn Neuadd y Pentref, Gwaelod y Garth. Pleser oedd cael croesawu nifer o ddysgwyr i'n plith am y tro cyntaf.

Aelod selog, ac un o gyn-lywyddion y gangen, sef Mrs Minwel Tibbott o Amgueddfa Werin Sain Ffagan a ddaeth i'n diddori. A noson ddiddan oedd hi hefyd. Testun y sgwrs oedd, "Bwydydd Traddodiadol Cymreig". Ar ddiwedd y cyfarfod cafwyd paned o goffi a theisennau a baratowyd gan aelodau'r Pwyllgor o'r resetiau o lyfr ardderchog Mrs Tibbot, "Amser Bwyd".

Ar Hydref 10fed daeth nifer dda o ferched ynghyd i wrando ar Mrs Mair Jones yn sôn am Gwmni Miri Cymru sy'n bodoli i gefnogi crefftwyr cefn gwlad Cymru. Daeth Mrs Jones ag arddangosfa o gynnyrch y Cwmni i'w dangos, ac fe gafodd amryw ohonnom gyfle i brynu anrhegion Nadolig yn gynnar.

Ac mae'n siwr y cawn ni Ferched Y Wawr Nadolig llwyddiannus iawn eleni, gan i'n trydydd cyfarfod ni ar Dachwedd 14 gael ei neilltuo i baratoi ar gyfer y Nadolig. Athro yn Ysgol Gymraeg Garth Olwg yw Mr Bobi Jones, ac fe ddangosodd e inni sut i fynd ati i addurno'r. goeden Nadolig. Paratodd Mrs Ann Ladd, sy'n ddigon cyfarwydd i wylwyr "Heddiw", bwdin Nadolig nodedig iawn. Pwdin nad oedd eisiau ei ferwi, ond yn hytrach ei roi mewn oergell am bedwar diwrnod cyn ei fwyta. Noson arall hwylus oedd hon, a buddiol iawn i'r aelod honno a fu mor lwcus â phrynu dau bwys o siwgr o'r stondin "Dewch a Phrynwch".


## Ennill

Llongyfarchiadau i barti Cerdd Dant Aelwyd Caerdydd ar eu buddugoliaeth ysgubol yn yr Wyl Gerdd Dant a gynhaliwyd yn Ysgol Ardudwy, Harlech ar Dachwedd 23ain. Ar ol eu llwyddiant yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd'yn y Rhyl, daeth y parti ynghyd unwaith eto, gyda rhai aelodau newydd, er mwyn paratoi ar gyfer y gystadleuaeth i bartion dros 18oed. Nan Jones, arweinydd y parti oedd yn gyfrifol am osod geiriau Ieuan Jones, 'Molawd i Ardudwy' i'r alaw "Ymdaith yr Yswain". Mae'r ferch dalentog hon, sydd yn athrawes Gerddoriaeth yn ysgol Rhydfelen wedi cyfrannu'n helaeth at weithgareddau'r Aelwyd ers iddi ymgartrefu yn ein plith. Tipyn o gamp oedd ennill y lle blaenaf mewn cystadleuaeth mor frwd Roedd un parti ar ddeg yn y rhagbrawf, ac aeth yr ail wobr i Barti'r Parc y Bala, a'r drydedd i Barti Merched Llanuwchllyn. Llongyfarchiadau hefyd i Pat Griffiths, un arall o athrawon Rhydfelen, a gipiodd y wobr gyntaf yn y gystadleuaeth adrodd i gyfeiliant telyn.

# FFAIR NADOLIG

Cafwyd un o'r ffeiriau Nadolig mwyaf a welodd y Blaid yn y ddinas erioed yn Neuadd y Ddinas, ddydd Sadwrn, Tachwedd 23. Daeth cannoedd o bwrcaswyr a chefnogwyr ynghyd, a'r stondinau dan eu sang. Fel canlyniad y mae'r Pwyllgor merched yn mynd i allu cyflwyno *mil* o bunnau i'r Gronfa ganolog (hyn yn cynnwys rhyw £200 mewn llaw).

Wrth gyflwyno Mrs J.E. Jones (y wraig a wahoddwyd i agor y ffair eleni) dywedodd Anne Roberts, Radyr, Llywydd y Pwyllgor Merched, ei fod yn bleser croesawu nol i'n plith o Gaernarfon, un a fu'n fath gefn i'w gŵr gweithgar yn y mudiad yn nydd y "pethau bychain".




* GWASANAETH NADOLIG Y PLANT, CAPEL BETHLEHEM, GWAELOD Y GARTH
Fe fydd y plant yn cyflwyno pasiant Gŵyl y Geni yn Bethlehem ar y bore Sul cyn dydd Dolig, sef Rhagfyr 22.

MERED A PHYLLIS

A'n dymuniadau gorau i Mered a Phyllis yn eu bywyd schtizoffrenaidd newydd rhwng Cwm Ystwyth a'r Rhymni. Mae 'na dŷ yn Shirley Road, Y Rhath, sy lawer yn wacach. Rhodded y Cardis bob croeso - fydd y ddau yma ddim yn hir yn estroniaid yn eich plith. Eu cyfeiriad newydd yng Nghaerdydd yw 79 Lynmouth Crescent, Tredelerch.


RECORDIAU NEWYDD Y NADOLIG

gan SAIN

* Recordiau Hir
  HOGIA'R WYDDFA – *Croeso 'Nôl.*
  EDWARD H. DAFIS – *Hen Ffordd Gymreig o Fyw.*
  RICHIE THOMAS – *Yr Hen Rebel.*
  COR MEIBION TRELAWNYD
* Recordiau Bach
  MIRI MAWR – *Caleb Llew a Blod wrthi.*
  EIRLYS PARRI – *Ti yw fy nghan.*
* Caset
  HOGIA'R WYDDFA – *Sain C508*
  DAFYDD IWAN –*(yma mae nghân) Sain C509*

NADOLIG LLAWEN I BAWB



GORFFWYSWCH - YMLACIWCH



CERBYDAU WENALLT

*(Perchennog J.M. CROOKES)*

Cerbydau moethus gyda 20-51 o seddau i'w hurio

SWYDDFA DOCYNNAU

Ffôn Caerdydd 31174

WHITTLE ROAD, LECKWITH ESTATE, CAERDYDD.

(Nosweithiau Ffôn 63250)

# CANOLFAN DECHNOLEG

*Dyma ran o femorandwm Dr Idris Jones yn ymdrin â'r angen gwirioneddol am Ganolfan Dechnoleg yng Nghymru ac yng Nghaerdydd. Oherwydd prinder gofod ni ellir ysywaeth cyhoeddi'r erthygl i gyd, ond os oes rhywun am ragor o wybodaeth am yr ymgyrch i weld gwireddu safbwyntiau'r erthygl, neu i gynorthwyoyn y gwaith yna cysylltwch yn uniongyrchol a Mr Ambrose Williams, 18 St Isan Rd, Caerdydd. Gweithiodd am flynyddoedd yn galed ac yn wirfoddol dros yr achos - mae'n bryd iddo bellach weld ffrwyth ei lafur.*

Memorandwm - Dr Idris Jones

**Yr wyf wedi cymryd diddordeb mawr yn Economi Cymru ers tro byd ac fe ddyfnhawyd y diddordeb hwn wedi imi ymddeol i Gymru yn 1964 ar ôl 17 blynedd o wasanaeth fel Rheolwr Cyffredinol Ymchwil a Phrif Wyddonydd y Bwrdd Glo Cenedlaethol.**

Fe fydd diwydiant a masnach y dyfodol yn tueddu fwy fwy at awtomateg a chyfrifiant yn gyffredinol a gall sefyllfa diweithdra waethygu erbyn 1975-80, dyweder, os na ddatblygir diwydiannau a chynhyrchion newydd yn gyson er mwyn llyncu'r diwaith. A siarad yn fyd-eang, mae cymdeithas newydd ar y gorwel a daw i fodolaeth cyn 2,000 O.C., h. y., yn ystod oes ein hieuenctid 25 oed. Lleiheir llafur corfforol yn ddirfawr efallai y bydd mwy o oriau hamdden nag o oriau gwaith, dileir pellter a bydd y ddynoliaeth yn mwynhau rheolaeth llwyrach dros natur a bywyd. Er mwyn sicrhau lle i Brydain (a Chymru) yn y râs ag U.D.A., Japan, Canada, ac ati, mae arnom eisiau mwy o ddawn trefnu a phenderfyniad, datblygu diwydiannau cywrain modern megis electronegau a gwell addysg dechnolegol a threfnyddol.

## CYMRU YN WAN

Daeth y rhan fwyaf o'r diwydiannau a sefydlwyd yng Nghymru yn ystod y 30 mlynedd diwethaf naill ai o'r tu allan i Gymru neu ar sail ariannol oddi allan iddi ac yr ydym yn ddiolchgar amdanynt. Mae llawer ohonynt yn ganghennau brig o gwmniau yn Lloegr ac U.D.A. ac oblegid hyn mae Cymru i raddau yn wan yn yr ystyr os bydd streic yng Nghanolbarth Lloegr, er enghraifft, gall pobl golli eu gwaith yng Nghymru; mae'r gwrthwyneb yn wir hefyd. Ychwanegaf bod y broblem gyffredinol yn un fwy nag y gellir ei datrys gan un genedl canolig ei maint heb sôn am genedl fach megis Cymru.

Teimlaf, fodd bynnag, y dylai ac y gallai Cymru wneud llawer mwy i gynorthwyo'i hun ac i ymrestru yn yr ymgyrch i gwrdd â her y dyfodol drwy greu a datblygu diwydiannau a chynhyrchion newydd a gwell o'r amgyffrediad gwreiddiol hyd at y raddfa fasnachol oddi mewn i Gymru ei hun.

Mae gofyn cael unedau mawrion a phob un yn cyflogi dros 300 o Wyddonwyr, Perianwyr a Technolegwyr mewn gwaith Ymchwil - Ddatblygu gyda chwmniau mawrion. Hyd y gwn i, does dim un Sefydliad i Gymru gyfan i'w gymharu â nifer fechan yn yr Alban a dros 50 yn Lloegr. Mae bron pob un o sefydliadau Ymchwil a Datblygu'r diwydiannau Cenedlaethol mawrion oddi mewn i Loegr. Mae gennym ddwy orsaf bŵer niwclear yng Nghymru, Trawsfynydd a'r Wylfa, ond does gennym yr un sefydliad ymchwil atomig yng Nghymru. Llynedd, bu raid i dros 70% o raddedigion Prifysgol Cymru, y brifysgol ail-fwyaf ym Mhrydain, ddod o hyd i swyddi y tu allan i Gymru. Byddai ychydig o sefydliadau Ymchwil - Ddatblygu yng Nghymru yn gymorth i ddarparu swyddi oddi mewn i Gymru i'n gwyddonwyr a'n peirianwyr graddedig ifanc. Dwyf i ddim yn dweud hyn mewn ffordd gul, genedlaethol ac fe hoffwn ychwanegu y gallai unigolion ac unedau bychain wneud llawer gyda chymorth a chefnogaeth.

## CANOLFAN FASNACH

Hefyd, mae angen sefydlu Canolfan Fasnach Cymraeg sy'n cynnwys canolfan Cynllunio Diwydiannol deilwng yng Nghaerdydd. Fe wnaed llawer o waith paratoadol ar hyn ers 1958 ac fe gafwyd ymateb ffafriol i lythyron a anfonwyd allan i nifer o gwmniau, Aelodau Seneddol, Awdurdodau Sirol a Lleol, Undebau Llafur a chyrff eraill gan Mr Ambrose Williams, ysgrifennydd y Cyngor Cynllunio Diwydiannol.

Ar 17eg o Fehefin, 1968 cynhaliwyd cynhadledd "cenedlaethol" wedi ei fynychu gan 100 o gynrychiolwyr yn Neuadd y Ddinas, Caerdydd. Apwyntiwyd Mr E.A.C. Westby yn Gadeirydd i Bwyllgor Llywio, ond, yn anffodus bu raid iddo weld ei ffordd i ymddeol ac y mae angen Cadeirydd newydd i lywio'r Pwyllgor hwn i agor Cronfa er mwyn sefydlu Canolfan Cynllunio Diwydiannol Cymraeg, a honno oddi mewn i Ganolfan Fasnach Gymraeg, o ddewis. Byddai canolfan felly, rwy'n siwr, yn gweithredu fel ffenestr i'r byd, gydag arddangosfa o Nwyddau Cenedlaethol a Rhyngwladol yn cael ei hadnewyddu'n gyson, yn calonogi dyfeisgarwch a gwell safon mewn nwyddau a gwell ansawdd mewn cynhyrchion wedi eu gwneud yn Nghymru.

## ADEILAD TRI-LLAWR

Er mwyn cynnwys canolfan felly ynghyd â'r holl weithgareddau perthnasol y cyferiais atynt, byddwn yn awgrymu adeilad tri - llawr gyda thua 30,000 troedfedd sgwâr o wagle ar bob un o'r tri llawr. Byddai'r ganolfan cynllunio a'r ganolfan diwydiannau Cymraeg a Gwledig ar y llawr isaf a gellid cynnwys swyddfeydd a chyrff pethnasol eraill a wasgerir ar hyd ac ar draws Caerdydd ar hyn o bryd yng ngweddill yr adeilad, a byddai'n rhwydwaith gweinyddol gwerthfawr, clos.

Mae angen Astudiaeth Bosibilrwydd gynhwysfawr o'r cynigion hyn gan dîm o Ddiwydianwyr, Econemegwyr, Cynllunwyr, Addysgwyr, ac ati, er mwyn cynghori a hyd yn oed bod yn rhan o Gorfforaeth Ddatblygu yn gyfrifol am bolisi llywodraethol.





Welsh Rural Crafts Ltd.

**Crefftau Gwledig Cymreig**

ARCÊD Y ROYAL

*(gyferbyn a Gwesty'r Royal)*

- Dewch i gael Syniadau am anrhegion Nadolig o'n dewisiad helaeth o grefftau gwreiddiol Cymreig.

- Ffasiynau newydd ar gyfer yr Hydref a'r Gaeaf mewn brithlen a brethyn Cymreig ar gael ar y llawr cyntaf.

# RHAGOR O ENWAU LLEOL

gan Ceinwen Thomas

Yn Yr Eglwys Newydd, *"Tafarn Llwyncelyn"* a glywais i erioed am Hollybush Inn, a *"Gwaun Treoda"* am Whitchurch Common. Ymhellach i'r dwyrain y mae Thorn Hill yn dringo dros ysgwydd Craig Llanisien i gyfeiriad Caerffili. *'Draenen Pen-graig'* ydyw'r enw Cymraeg hollol adnabyddus ar yr heol honno. Dywedir bod draenen wyrthiol yn arfer tyfu ar ben Craig Llanisien, yn ymyl Castell Morgraig, ac mai honno sydd wedi rhoi ei henw i'r heol i gyd. Yr oedd hi'n wyrthiol am mai yn y nos yn unig y blodeuai. Nid yw'r stori, fel y cefais hi gan gefnder i mi, sy'n byw ar ben "Y Ddraenen", yn dweud ar ba noswaith yr oedd hi'n blodeuo, ond y tebyg ydyw mai ar y nos cyn Nadolig neu ryw ŵyl Gristnogol arall yr oedd hynny, oblegid y mae llawer o straeon ar gael am ddrain gwyrthiol yn blodeuo'n annhymig, gan amlaf cyn y Nadolig. Felly, Draenen Pen-graig, gobeithio, fydd Thorn Hill i ddarllenwyr 'Y Dinesydd' o hyn allan.

O sôn am Dafarn Llwyncelyn, a wyddech chwi mai *"Clwyd y Gyrnos"* yw enw Cymraeg y tafarn sydd ar yr heol o Watford (Y Fodffordd, y mae'n debyg, yw'r ffurf gywir ar yr enw hwnnw) i Riwbina, tafarn sy'n ymfalchio bellach yn yr enw Saesneg Black Cock Inn? Black Cock Inn! A Chlwyd y Gyrnos a glywais i erioed amdano gan hen drigolion Cwm Taf. Awgryma Syr Ifor Williams "lle bryniog, twmpathog" fel ystyr y gair Gyrnos, awgrym sy'n gweddu i'r dim i Glwyd y Gyrnos.

## TREGANNA

*"Cantwn"* a glywais i erioed ar Canton, a dyna a geir ar y map a gynhwysir yn llyfr G.J. Williams, 'Iolo Morgannwg'. Ond y mae enw arall hefyd, sef *Treganna*, sydd megis Pontcanna, yn cynnwys enw'r nant sydd, neu a oedd, yn ymyl, sef Nant Canna. Ni wyddys yn iawn ystyr y gair Canna, ond awgrymir mai enw'r Santes Canna ydyw, a roes ei henw i Langan (na) yn Y Fro. Yn uwch i fyny na Threganna i gyfeiriad Sain Ffagan y mae lle o'r enw Fairwater. *Tyllgoed* yw enw Cymraeg y lle hwnnw, o'r gair "twll" sy'n golygu "mawr", gair nad yw'n digwydd mwy ond yn enwau llefydd. Felly ystyr Tyllgoed yw 'Coed Mawr'.

Enw dyn a gofnodir yn elfen olaf yr enw Pentrebane, sef Pain neu Payn, sef Paen yn Gymraeg a llygriad yw'r enw o Cefn-tre-baen.

Beth am Rumney ar ochr Casnewydd i Gaerdydd? Bûm unwaith yn ymweld â hen ffermwr Cymraeg ei iaith yn byw ar y morfa islaw Rumney a oedd wedi ei eni a'i fagu yno. Iddo ef, Tredelerch oedd enw'r lle hwnnw a dyna'r enw a geir gan Leland bedair canrif yn ôl. Enw dyn yw Telerch, yn cynnwys yr elfennau Ty ac Elerch. Enw dyn yw Elerch ac y mae "ty" yn elfen a oedd gynt yn cael ei ddodi o flaen enw person fel arwydd o barch, megis yn yr enwau Tygai (ty + Cai) Tybie (ty + Pie).

## HEOL Y CAWL

A wyddech chwi, gyda llaw, mai Heol y Cawl yw enw Cymraeg Wharton Street a Heol y Plwca yw enw Cymraeg City Rd? Ac a glywsoch enw Cymraeg am North Road? Wel do, efallai, Ffordd y Gogledd. Ond enw gwneud diweddar ydyw hwnnw, ar yr un tir yn union ag Ysbyty'r Waun. Yr hen enw ar North Road yw 'Sarn Fid Foel', enw a oedd yn dal ar arfer yn y 18fed ganrif, ac enw sy'n mynd â ni yn ôl i'r cyfnod pell pan oedd Caerdydd yn gaer Rufeinig ar lan Afon Taf, a'r ffordd honno yn arwain o'r gaer dros y mynydd i Gaerffili (Caerffîli, ag i- hir, cofier, nid Caerffili, ag i- fer) ac oddi yno i'r Gelligaer ac ymlaen i Aberhonddu. Wrth 'Sarn' golygir ffordd wedi ei phalmantu, fel yr oedd y ffyrdd Rhufeinig, ac y mae'r gair yn elfen gyffredin yn yr enwau Cymraeg ar y ffyrdd hynny. Ystyr y gair 'bid' ydyw 'perth'. Yng Ngeiriadur y Brifysgol rhoddir y cyfystyrion Saesneg a ganlyn iddo:"(Lopped) hedge, quickset, hedge, bush," a digwydd y gair yn enw un o strydoedd Caerdydd, Fidlas Rd., sef Y Fid Las. Gan i'r enw Sarn Fid Foel fyw cyhyd, onid braf o beth fyddai gallu ei atgyfodi eto yn enw Cymraeg ar North Rd?



# *ANGEN YMCHWILIAD?*

Ni ddarparwyd dim yn swyddogol ar hyd y blynyddoedd, yn ddarlithiau na nodiadau yn yr iaith Gymraeg, yng nghwrs y myfyrwyr ol-gradd sy'n astudio am y radd o Feistr Addysg yng Nghyfadran Addysg Coleg y Brifysgol, Caerdydd. A'r haf eleni ar ol misoedd ers cyflwyno gan un o'r myfyrwyr waith sylweddol ar destunau Seicoleg Addysg yn y Gymraeg, fe'u dychwelwyd iddo heb na sylw na marc wrtho am ei fod yn Gymraeg.

Roedd y gwaith a gyflwynwyd yn cyfeirio at waith, a chymorth geirfa, etc., Gymry Gymraeg amlwg sydd wedi bod yn defnyddio'r Gymraeg mewn meysydd o'r fath mewn Seicoleg Addysg.

Gofynnwyd i'r Athro, a'r Gyfadran Addysg yng Nghaerdydd, i ystyried "yr angenrheidrwydd o ddarparu cyfleusterau at astudio a gwneud gwaith Seicoleg Addysg hefyd drwy gyfrwng y Gymraeg", ond nid atebwyd yr awgrym hwnnw a wnaed mewn llythyr ym mis Mehefin diwethaf.

Dangoswyd hefyd, rhag ofn na sylwyd gan addysgwyr y Gyfadran, bod yna le a chyfle mawr i ddatblygu maes Seicoleg Addysg yn arbennig gydag ystyriaeth o'r iaith Gymraeg a'r cefndir Cymreig yn Ne-Ddwyrain Cymru hefyd, — ar amrywiaeth o lefelau, a chredu bod gan y Brifysgol yng Nghaerdydd gyfrifoldeb yn y cyfeiriad hwn, ag adnoddau i wneud hynny.

Gofynnwyd am gael trefniadau i gyfieithu gwaith Cymraeg, gydag ystyriaeth efallai bod "yna gyfyngiadau ar adnoddau ariannol y Coleg." Ond nid atebwyd y cais hwn chwaith.

Hysbysebiad uniaith, Saesneg a gyhoeddir i ddweud am Gyrsiau'r radd yma yn y wasg etc. gan Gyfadran Addysg Coleg y Brifysgol, Caerdydd.


Gwasg y Dref Wen

*6 Rookwood Close*
*Llandaf, Caerdydd*
*Ffôn: 561530*

**LLYFRAU LLIWGAR NEWYDD I BLANT**

| | |
|---|---|
| Cantorion Tref Bremen | £0.95 |
| Ra ta ta tam | £1.30 |
| Llyfr Mawr y Môr-ladron | £1.30 |
| Cawr Zeralda | £1.15 |
| Y Ceffyl Hud | £1.10 |
| Symud Mynyddoedd | £1.10 |
| Bethan a'r Mochyn Glas | £0.80 |

- Storïau hyfryd
- Lluniau llawn-lliw llachar gan arlunwyr byd-enwog
- Prisiau cymaint â 40% yn rhatach na llyfrau Saesneg cyffelyb!

**I BLANT CYMRU, RHAI O LYFRAU LLIWGAR GORAU'R BYD!**

Gwasg y Dref Wen


*Cyhoeddwyd gan Bwyllgor Y Dinesydd. Argraffwyd gan Gyhoeddwyr Cleglen Cyf, 134 Ffordd Parc Ninian, Caerdydd; ffôn : 28917.*
*Hysbysebu gan Cyhoeddiadau ap Dafydd Cyf, 55 Heol Eglwys Gadeiriol Isa, Caerdydd; ffôn : 396262.*